

Dyddiad ac amser, grŵp blwyddyn:

Medi 21ain, 2023

Blwyddyn 3

**Ble a Phryd:** Cyd-destun yr arsylwi – pwnc/MDPh, cyd-destun cyffredinol yr ystafell ddosbarth

Arsylwyd gwers mathemateg blwyddyn 3 yn eu dosbarth dysgu ar fore Llun. Tybiwyd bod y dosbarth wedi cael eu rhannu mewn i grwpiau a chymerwyd bod y grŵp gallu is ym mlaen y dosbarth o flaen yr athro ar grŵp gallu uwch yn y cefn.

**Beth ddigwyddodd:** disgrifiad manwl o'r digwyddiad critigol (gorau po fwyaf o fanylder er mwyn gallu cyfeirio ato yn eich gwaith diweddarach)

Ar ddechrau'r wers gofynnodd yr athro i'r disgyblion i drafod y darnau arian gyda phartner ac yn syth gwelwyd nad oedd y grŵp blaen yn trafod ond yn gwingo. Arsylwyd hyn yn ystod y wers gyda'r grŵp yma ddim yn ymgymryd llawer yn y wers ond y grŵp yn y cefn yn trafod ac yn rhoi llaw i fyny i ateb bob cwestiwn. Gwelwyd hefyd pan oedd yr athro angen ateb roedden nhw'n gofyn ar hap ac nid y plant oedd yn codi dwylo, pan oedd yr athro yn galw ar y grŵp yn y blaen roedden nhw'n cymryd amser i ateb ac roedd y grwpiau eraill yn diflasu.

Arsylwyd y diffyg gwahaniaethu yn ystod y wers, roedd pawb i wneud yr un cwestiynau a gwaith er gwelwyd roedd y grŵp blaen yn cael trafferth. Doedd dim defnydd o lawer o adnoddau hefyd, gwelwyd darnau arian ar y bwrdd ond ni ddefnyddiodd yr athro rhain. Rhoddodd yr athro byrddau gwyn allan tuag at ddiwedd y wers ond cafodd y disgyblion dim cyfarwyddyd am beth i roi arno.

Y digwyddiad critigol arsylwyd ar felly yw'r diffyg gwahaniaethu a'r grwpio oedd yn amlwg yn y dosbarth. Gwelwyd hyn fel digwyddiad critigol am y diffyg dealltwriaeth y grŵp blaen a'r diflastod y grŵp cefn am eu bod yn deall ond ddim yn cael eu herio.

Er hyn gwelwyd hefyd y dechneg o ailadrodd yn effeithiol iawn. Pan roedd y disgyblion yn ateb roedd yr athro yn cael pawb i ailadrodd yr ateb gan hefyd ailddweud atebion blaenorol. Credwyd bydd hyn wedi bod yn effeithiol iawn i'r grŵp blaen ond roedd yr athro yn pwysleisio treigladau yn gyson a bydd hyn wedi elwa'r dosbarth cyfan.

**Meysydd archwilio posibl:** beth yn eich barn chi a allai fod "o dan yr wyneb" yn y digwyddiadau hyn? Pa lwybrau ymchwil gallech chi eu hystyried?

Ni welwyd cynorthwyydd yn y dosbarth felly gellir tybio roedd y disgyblion wedi cael eu grwpio er mwyn galluogi yr athro i weld yn union pwy sydd yn deall a phwy fydd angen y cymorth.

Credwyd y llwybr ymchwil i ddilyn yw effaith y strategaeth o grwpio yn ôl gallu i weld oes ymchwil yn dangos bod grwpio yn elwa disgyblion neu yn creu bwlch yn eu haddysg. Ymchwilir mewn i effaith ar addysgu y disgyblion ond hefyd gwelir os mae effaith negyddol ar iechyd meddwl a meddylfryd plant. Ydy plant yn deall pam maent yn cael eu grwpio a beth yw eu teimladau nhw am hyn?

**Nodiadau:** unrhyw fanylion gallwch eu nodi (ydy hi'n amgylchedd prysur, ydy hi ar ôl cinio, oes llawer o bethau'n tynnu sylw'r cyfranogwyr, ydy cyfarwyddiadau'n cael eu gwneud yn eglur – gorau po fwyaf o bethau y gallwch gyfeirio atynt yma)

Gan fod yr arsylwad wedi cymryd rhan mewn ystafell drochi nid oes llawer o wybodaeth gyffredinol am y wers ar gael ond cafodd y wers ei gynnal ar fore Llun.

Gwelwyd bod rhan fwyaf y dosbarth yn aros ar dasg ac yn cymryd rhan ond fel sonnir uchod doedd y grŵp blaen i weld yn diflasu a ddim yn cymryd rhan yn y trafodaethau pâr/grŵp.

Eto fel sonnir uchod rhoddodd yr athro byrddau gwyn allan ond rhoddodd dim cyfarwyddiadau am beth i wneud, gwelwyd bod rhai disgyblion, yn enwedig y grŵp cefn, wedi dechrau gwneud gweithio allan arnyn nhw. Gwelwyd hefyd pan roedd yn amser i ateb y cwestiwn gofynnodd yr athro i'r plant dileu beth oedd ar y byrddau gwyn ac nid gofyn iddyn nhw ddarllen beth roedden nhw wedi gwneud, tybiwyd a ydy hyn yn ffordd effeithlon o ddefnyddio byrddau gwyn?

Yn aros ar adnoddau doedd dim llawer o ddefnydd wedi cael eu rhoi i ddarnau arian plastig ar y byrddau. Gwelwyd y rhain yn syth ar y bwrdd ond ni ddefnyddiodd yr athro neu'r disgyblion rhain unwaith yn ystod y wers.